

Iechyd a Mentergarwch Naturiol

Creu ffyrdd newydd o ddefnyddio
adnoddau awyr agored a naturiol Cymru
drwy gydweithio, cyfuno adnoddau a
meddwl i'r dyfodol.



Adroddiad ac argymhellion

PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo



Experience • Enjoy • Achieve.
OUTDOOR PARTNERSHIP

WATO WALES
ADVENTURE
TOURISM
ORGANISATION
OBCEVNIETVION
IŴRHW
Mentergarwch

Mawrth 2016

Rhagair


Mae mannau awyr agored naturiol a pharciau trefol Cymru yn llefydd sy'n cynnig cyfleoedd unigryw ar gyfer llawer o weithgareddau sy'n dda i bobl, i'r economi ac i natur. Mae cael pobl i ddangos mwy o ddiddordeb a chymryd mwy o ran mewn gweithgareddau corfforol fel rhan o'u bywydau bob dydd yn arwain at gymunedau iachach a chostau llai, at ailgysylltu pobl gyda natur ac at roi hwb i hyder pobl. Mae prosiect newydd i Gymru gyfan yn dod ag arbenigwyr iechyd, antur a chymunedau ynghyd mewn ffyrdd arbennig. Mae'r ddogfen hon yn dangos sut gall sector awyr agored Cymru, sy'n tyfu o hyd, adeiladu cyfalaf cymdeithasol, lleihau costau a chefnogi targedau'r Llywodraeth mewn ffyrdd arloesol newydd.

Mae diwydiant awyr agored Cymru yn cydweithio gyda'r sectorau addysg a sgiliau, twristiaeth, lles, chwaraeon, yr amgylchedd, busnes a diogelwch. Mae'r Prif Egwyddorion sydd wedi eu hamlinellu isod wedi eu datblygu gan randdeiliad y diwylliant sy'n ymrwymo i gydweithio a dod â mwy i Gymru.

Mae canolbwynt pendant i'n dull gweithredu ac mae'n cynyddu effeithiolrwydd trwy greu ffyrdd newydd o weithio ym mannau awyr agored Cymru er mwyn gwella iechyd, cyfleoedd gwaith a defnyddio'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaladwy. 2016 ydy'r flwyddyn gyntaf i'r diwydiant ddod at ei gilydd mewn dull strategol o'r fath. Mae'r fenter yn cefnogi'r Flwyddyn Antur ac adolygiad Tirweddau Cenedlaethol.

Mae'r Chwe Phrif Egwyddor yn cefnogi amcanion cyffredin i gyflawni mwy gyda llai o adnoddau. Trwy gydweithio, cyfuno adnoddau a meddwl i'r dyfodol, cynyddu GYC a gwaith, lleihau costau iechyd a diweithdra mae modd creu manteision sylweddol.

Mae'r prif ddatganiadau yn cydnabod amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cefnogi'r angen i greu cymunedau llwyddiannus a chadarn ar draws Cymru. Rydym ni am weld: a) gwlad iachach sy'n fwy atebol i weithio a chynyddu cyrhaeddiad; b) cymunedau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn gwybod sut i wneud y gorau o asiantaethau gwahanol y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae'r diwydiant awyr agored yn annog, yn galluogi ac yn cefnogi iechyd, lles ac arloesedd ac yn gwneud y gorau o'r hyn sydd eisoes yno.



Dafydd Elis-Thomas AC
Dwyfor Meirionnydd

Cyflwyniad

Mae 'Prif Gynigion Gweithredu yn yr Awyr Agored' yn amlinellu chwe phrif egwyddor sydd wedi eu hadnabod gan randdeiliad allweddol y sector awyr agored. Mae Blwyddyn Antur 2016 eisoes wedi rhoi cyfle i fudiadau'r sector awyr agored gydweithio mewn ffyrdd newydd.

Trwy gydweithio â'i gilydd mae Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (WATO) a'r Bartneriaeth Awyr Agored (Y BAA) wedi llunio prif egwyddorion. Mae llawer o nodau WATO a'r bartneriaeth yn debyg a thrwy gydweithio gyda'i gilydd bydd modd canolbwyntio ar sectorau ehangach o'r awyr agored er mwyn cynyddu posibiliadau a phwysleisio'i bwysigrwydd i Gymru gyfan.

Mae WATO yn fforwm sy'n cynnwys y canlynol:

- Tri mudiad rhanbarthol – Eryri-Fywiol (E-F), Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro, (GSAASB) a Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (GPGAAGC);
- Pum mudiad/adran Llywodraeth Cymru: Croeso Cymru (CC), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Chwaraeon Cymru, yr Adran Addysg a Sgiliau (AAS); a'r
- Gwasanaeth Trwyddedu Gweithgareddau Antur (GTGA).
- Cynrychiolaeth y drydedd sector – Y Bartneriaeth Awyr Agored


Nod WATO ar y cyfan ydy cefnogi sut mae'r sector twristiaeth gweithgareddau antur yn datblygu i fod yn gynaliadwy trwy Gymru. Mae tri mudiad rhanbarthol WATO yn cynrychioli dros 800 o fusnesau, yn cyflogi dros 10,000 o bobl a chyda throsiant blynyddol o dros £480 miliwn.

Mae'r Bartneriaeth yn cydweithio gyda mudiadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Ei chenhadaeth ydy rhoi mwy o gyfle i bobl yng Nghymru gyflawni eu potensial trwy gyfrwng gweithgareddau awyr agored.

Ers sefydlu'r Bartneriaeth ym mis Hydref 2005, mae wedi creu dros 70,000 o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau; sefydlu 80 o glybiau gweithgareddau awyr agored cymunedol sydd wedi eu harwain gan wirfoddolwyr yng Ngogledd Cymru gyda dros 8,000 o aelodau'r flwyddyn; hyfforddi dros 2,500 o wirfoddolwyr gyda gwerth cymdeithasol o £10 miliwn (yn seiliedig ar gyfraddau hyfforddwyr masnachol) a chefnogi dros 300 o bobl leol di-waith i ddod o hyd i waith parhaol yn y sector ar fuddsoddiad o £4.5 miliwn (yn seiliedig ar gyflog o £15 mil).

Iechyd a Mentergarwch Naturiol

Mae'r sector awyr agored yn cydnabod ei safle pwysig ym meysydd twristiaeth, chwaraeon a hamdden, ond mae hefyd yn cydnabod ei fod yn dod â manteision i lawer o adrannau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Amgylchedd, Addysg, Sgiliau, Busnes, Iechyd a Diwylliant. Mae manteision cyhoeddus sector awyr agored llwyddiannus i'w gweld trwy gydol y ddogfen hon yn ogystal â pholisïau a blaenoriaethau rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru.



Paul Donovan
Cadeirydd – Sefydliad
Twristiaeth Antur Cymru (WATO)



Tracey Evans
Prif Swyddog Gweithredol
Y Bartneriaeth Awyr Agored (Y BAA)



Diben

Ein cenhadaeth ydy creu Cymru gadarn trwy drawsnewid y sefyllfa economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ynghyd â chyflwr iechyd pobl. Byddwn ni'n ceisio gwneud hynny drwy grynhoi sgiliau a dealltwriaeth rhwydwaith o bobl broffesiynol Adventure NOW sy'n gweithio yn yr awyr agored yn ogystal â'r miliwn o bobl maen nhw'n dylanwadu arnyn nhw bob blwyddyn.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn benodol â'r Chwe Phrif Egwyddor sydd wedi eu nodi yn yr atodiadau a'u meithrin gan lawer o randdeiliaid allweddol. Wrth ystyried yr egwyddorion hyn, mae'r ddogfen yn ymdrin ag elfennau canlynol y sector awyr agored:

1. Deilliannau'r Dyfodol

2. Blaenoriaethau / Nodau Allweddol

3. Amcanion Strategol

- Adnabod bygythiadau, risgiau a chyfleoedd cyffredinol;
- Meincnodi gweithgareddau yng Nghymru gydag arferion da ledled y byd;
- Gwneud y gorau o adnoddau awyr agored Cymru er mwyn datblygu iechyd, y gymuned a rhinweddau personol;
- Archwilio dulliau newydd o ymdrin â risgiau, dewisiadau a chyfrifoldebau;
- Creu cymdeithas sector awyr agored cydlynol sy'n gallu cyflenwi rhaglenni i fynd i'r afael ag iechyd, lles a chyfiawnder cymdeithasol;
- Meithrin cysylltiadau rhwng sectorau digyswllt er mwyn creu cyfleoedd newydd.

4. Partneriaid a Rhanddeiliaid Allweddol

Yn ychwanegol, mae rhanddeiliaid allweddol wedi adolygu strategaethau perthnasol llawer o sectorau gwahanol er mwyn amlinellu pa mor berthnasol ydyn nhw i'r sector awyr agored, sy'n dangos arwyddocâd cysylltu gyda'r sector awyr agored. Mae canlyniad yr adolygiad hwn wedi ei gynnwys yn y Casgliad:

5. Casgliad

6. Atodiadau

- Y Chwe Egwyddor

Iechyd a Mentergarwch Naturiol

Mae'r fenter Iechyd a Mentergarwch Naturiol yn chwilio am ffyrdd newydd o gydweithio mewn dulliau arloesol gydag adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau, mudiadau sector awyr agored a darparwyr gweithgareddau awyr agored. Trwy wneud hynny, gyda'n gilydd fe allwn ni sicrhau manteision gwell o lawer i bobl Cymru a'i hymwelwyr, gan gynnwys:

- 1.1 Manteisio ar arferion da busnesau antur Cymru sy'n cyfrannu at gydnherthu cymunedau trwy ddarparu gweithgareddau awyr agored sy'n gwella iechyd am gost lai ac sy'n fwy effeithiol na gweithgareddau traddodiadol;
- 1.2 Mwy o bobl yn cymryd rhan yn y gymuned, gan adeiladu ar enghreifftiau sicr sut gall gweithgareddau natur annog pobl i ystyried yr amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwaith, chwarae a gallu;
- 1.3 Cefnogi'r symudiad tuag at economi gylchol ac economi rannu a chael gwared ar elfennau allanol negyddol;
- 1.4 Y sector awyr agored i ymwneud ar lefel sylfaenol, gyda hyfforddwyr ac arweinwyr Adventure sy'n annog eu cwsmeriaid i ddechrau ar eu taith antur hyd oes, a chyfarwyddo mudiadau a rhwydweithiau sy'n gallu eu helpu nhw i wneud hyn;
- 1.5 Cymru sy'n arwain y ffordd gyda'i dull o gydweithio gan osod esiampl i weithgareddau eraill annog pobl i ymgolli yn yr awyr agored fel gweithgaredd gydol oes a datblygu cariad a pharch at natur;
- 1.6 Llwybr clir at waith gyda phob cam o bob gweithgaredd yn arwain at rywbeth arall sy'n gadael i blentyn sy'n gwneud gweithgaredd am y tro cyntaf gael gwaith yn y pen draw yn y maes hwnnw neu ddatblygu i fod yn berfformiwr elit: ar hyn o bryd mae'r llwybrau yn cyd-fynd ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol.



2. Blaenoriaethau / Nodau Allweddol

2.1 Sgiliau, Hyfforddiant a Gwaith

2.1.1 Datblygu sector awyr agored sy'n cynnwys arloesedd, rhagoriaeth, datblygiad personol gydol oes, ymdeimlad o gymuned a gweithwyr medrus a brwdfrydig.

2.2 Yr amgylchedd

2.2.2 Cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y bobl o'r amgylchedd naturiol trwy ddod â gweithgareddau awyr agored yn rhan o'r gadwraeth a'r gwaith sy'n ei warchod.

2.3 Economi Ymwelwyr

2.3.1 Datblygu a darparu gweithgareddau antur a gweithgareddau awyr agored sy'n seiliedig ar adnoddau sy'n atgyfnerthu'r rheswm dros weithio a chwarae yng Nghymru.

2.4 Iechyd a Lles

2.4.1 Creu Cymru heini, iach a chynhwysol, lle mae gweithgareddau awyr agored yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan, mwynhau, cyflawni a dod o hyd i waith, gan ddod â chymunedau at ei gilydd a chreu defnydd cynaliadwy a gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd.

2.5 Cymryd rhan

2.5.1 Annog mwy o bobl ifanc a'r genhedlaeth newydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a symud ymlaen i ganolbwyntio ar ofal iechyd yn hytrach na thriniaeth salwch.

2.6 Partneriaid

2.6.1 Dod a rhanddeiliaid allweddol o adrannau addysg a sgiliau, yr amgylchedd, iechyd, twristiaeth, chwaraeon a hamdden, diogelwch, y trydydd sector a busnesau antur at ei gilydd yn strategol i gefnogi'r newidiadau sylfaenol sydd eu hangen ymhob sector er mwyn cyflawni nodau yn ymwneud â'r hinsawdd ac adnoddau ynghyd â thargedau cymdeithasol.

3. Amcanion Strategol

Bydd cydweithio yn caniatáu inni gyflawni'r prif flaenoriaethau sydd wedi eu rhestru yn ogystal â chyflawni deilliannau'r dyfodol. Trwy gydweithio, gall y Sector Awyr Agored ennill y gydnabyddiaeth mae'n ei haeddu yn ei allu i ddarparu strategaeth traws-lywodraeth yn y sectorau canlynol: Iechyd, Chwaraeon a Hamdden, Addysg, Busnes, Rheoli Diogelwch, Twristiaeth a'r Amgylchedd.

- 3.1** Sefydlu Cymru fel arweinydd byd-eang mewn gwaith sy'n annog manteision cymdeithasol ac amgylcheddol trwy brofiadau antur ac awyr agored;
- 3.2** Sicrhau bod Cymru yn iach, yn hardd, yn llawn diwylliant a natur gyda llawer o gyfleoedd i'n cymunedau a'n twristiaid ymgolli yn yr awyr agored a chyfrannu at gymuned iachach a hapusach ac at economi dwristiaeth fwy proffidiol;
- 3.3** Sicrhau cydweithio cadarn ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn gweithredu Cynllun Cyflenwi Partneriaid, cynyddu buddsoddiad a sgiliau newydd ar gyfer gweithgareddau awyr agored;
- 3.4** Creu fforwm i gasglu a rhannu agweddau sy'n newid meddyliau yn yr ardal;
- 3.5** Cydweithio gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys Cynghorau Sir er mwyn cefnogi, cynnal a diogelu buddsoddiad mewn gweithgareddau awyr agored cymunedol ac i ddylanwadu ar eu buddsoddiad mewn gweithgareddau awyr agored;
- 3.6** Hyrwyddo 'ymdeimlad o le' er mwyn creu perchenogaeth gymunedol trwy:
 - Ddewis iaith, yn enwedig y Gymraeg, er mwyn hyrwyddo diwylliant Cymru,
 - Cydnabod a darparu ar gyfer gofynion grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector (er enghraifft merched a phobl anabl),
 - Rhwydweithiau gwirfoddoli lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Iechyd a Mentergarwch Naturiol

4. Rhanddeiliaid a Phartneriaid Allweddol a Rhanddeiliaid a Phartneriaid Allweddol y dyfodol

Mae'r holl rhanddeiliaid gwahanol wedi bod yn hanfodol er mwyn gallu cydweithio ac mae hyn wedi gwneud y prosiect yn un gwahanol. Mae dros 60 o fudiadau wedi bod yn rhan ohono hyd yma, ac wrth inni weithredu ein strategaeth, bydd y cydweithio hyn yn parhau.



Bryniau Gwylt a Dyffryn Dyffryn Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Benllyn Naturiol Eiddolaeth
Area of Outstanding Natural Beauty



5. Casgliad

Deilliannau'r Dyfodol, Blaenoriaethau/Nodau Allweddol ac Amcanion Strategol i ddilyn dulliau gweithredu 'Tîm Cymru', sy'n ceisio sicrhau bod holl adrannau Llywodraeth Cymru mor effeithiol a hyblyg ac y gallen nhw fod.

Trwy fabwysiadu cynnwys a chyd-destun y chwe Phrif Egwyddor, bydd y camau nesaf yn edrych ar:

- 5.1** Adnabod bygythiadau, risgiau a chyfleoedd cyffredinol
- 5.2** Meincnodi gweithgareddau yng Nghymru gydag arferion da ledled y byd
- 5.3** Gwneud y gorau o adnoddau awyr agored Cymru er mwyn datblygu iechyd, y gymuned a rhinweddau personol
- 5.4** Archwilio dulliau newydd o ymdrin â risgiau, dewisiadau a chyfrifoldebau
- 5.5** Creu cymdeithas sector awyr agored cydlynol sy'n gallu cyflenwi rhaglenni i fynd i'r afael ag iechyd, lles a chyfiawnder cymdeithasol.
- 5.6** Meithrin cysylltiadau rhwng sectorau digyswllt er mwyn creu cyfleoedd newydd.

Trwy fabwysiadu cynnwys a chyd-destun y chwe Phrif Egwyddor, bydd manteision cymryd rhan yn:

- 5.7** Ehangu rhwydweithiau hamdden a phroffesiynol - 'Cymru o fwrlwm diwylliannol'
- 5.8** Gwella cyfleoedd Dysgu a Datblygu - 'Cymru ffyniannus'
- 5.9** Hyrwyddo ffitrwydd sy'n gysylltiedig ag iechyd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau - 'Cymru iachach'
- 5.10** Arwain at ddod o hyd i ddulliau newydd o arwain, cyfathrebu, adeiladu tîm a datrys problemau - 'Cymru sy'n cyd-dynnu'
- 5.11** Caniatáu rhannu arbenigedd ynghylch datblygu hunan: - ymddiriedaeth, -wybodaeth, -hyder, -feddwl, - ddisgyblaeth a -barch - 'Cymru gadarn'
- 5.12** Cyd-gynhyrchu syniadau a rhaglenni newydd sy'n cysylltu risg gyda deilliannau - 'Cymru anturus'

Iechyd a Mentergarwch Naturiol

- 5.13** Cynyddu a datblygu cysylltiadau byd-eang gyda mudiadau sy'n rhannu profiad ac uchelgais tebyg – 'Cymru sy'n gyfrifol am y byd'
- 5.14** Datblygu prosesau a chymwysterau sy'n cysylltu deilliannau personol, grŵp ac amgylcheddol - 'Cymru fwy cydradd'

Dyma'r amser inni gymryd y camau nesaf ar ran yr ymwelwyr a'r bobl a chreu rhwydwaith gyda'r cysylltiadau, yr arbenigedd a'r ymrwymiad priodol er mwyn creu'r newidiadau sydd eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Rhwydwaith Antur arfaethedig ar gyfer Awyr Agored Cymru (Adventure NOW) yn ceisio gwneud y gorau o'r hyn gall sector awyr agored o strwythur da barhau i'w gynnig er mwyn datblygu cynaliadwyedd ac economi Cymru - trwy wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Gyda chynlluniau effeithiol a digon o adnoddau, rydym ni'n credu ei bod hi'n bosibl creu 4,000 o swyddi ychwanegol a £300 mil o GYC trwy gysylltu'r awyr agored gydag arloesedd, mentergarwch a lles. Beth am ymuno â ni ar ein taith i gyflawni hyn?



Atodiad – Chwe Phrif Egwyddor

Mae Blwyddyn Antur 2016 yn gyfle gwych i sefydliadau yng Nghymru gael cydweithio i hyrwyddo set o brif egwyddorion i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr awyr agored, yn darparu sylfaen ar gyfer polisiau'r dyfodol ac yn gydnaws â saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Egwyddor 1: Cymru fwy cyfartal a chyfrifol byd-eang.

Rydym yn ceisio cael strategaeth ar lefel y llywodraeth sy'n cefnogi gweithrediad amgylcheddol a chynwysoldeb yn y sector awyr agored

Dylai sefydliadau'r sector awyr agored, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth barhau i gydweithio i gytuno ar, gweithredu ac ariannu rhaglen strategol sy'n cydnabod pwysigrwydd hamdden awyr agored a thwristiaeth antur i Gymru ac i'r Cymry.

Egwyddor 2: Cymru Lewyrchus

Rydym yn ceisio cydweithio'n agos â'r llywodraeth i ddatblygu strategaethau hirdymor ar gyfer economi wledig ffyniannus

Fe gyfrannodd y sector awyr agored werth £304m i dwristiaeth - 12% o economi twristiaeth Cymru (Miller 2014). Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd economaidd yn gysylltiedig â'r economi wledig ac yn cyfrannu tuag at 8,243 o swyddi (FTE). Mae economi awyr agored Cymru yn gyfle i'r wlad wneud yn fawr o'i diwylliant, o addysg, mwynhad amgylcheddol, iechyd, treftadaeth, hamdden a lles. Mae angen cydnabyddiaeth, anogaeth a chefnogaeth ar y gwahanol sefydliadau, boed yn gyhoeddus, preifat neu yn y trydydd sector, er mwyn datblygu a thyfu i greu sector awyr agored sy'n medru cyfrannu at raglenni cenedlaethol.

Egwyddor 3: Cymru Gydnerth

Rydym yn chwilio am ffyrdd newydd o weithio sy'n codi dealltwriaeth a'r gofal am natur i gydnerthu.

Mae tirwedd naturiol Cymru yn darparu cyfleoedd sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae gennym ni afonydd, llynnoedd, camlesi, mynyddoedd, llwybrau troed a lonydd beic rhagorol; traethau o fri, yn ogystal ag amrywiaeth o chwaraeon ddŵr, gweithgareddau arfordirol a safleoedd hanesyddol a diwylliannol.

Bydd rhaid i'r adnoddau yma barhau i gael eu rheoli'n dringar gan ddefnyddwyr (rheolwyr tiroedd, darparwyr gweithgareddau antur, cadwraethwyr a chyrrff statudol). Mae angen cydweithio a gwell gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i sicrhau cynaladwyedd amgylcheddol ar gyfer defnydd a mwynhad cenedlaethau'r dyfodol.

Iechyd a Mentergarwch Naturiol

Egwyddor 4: Cymru iachach, fwy cyfartal llawn bwrlwm diwylliannol lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Rydym yn ymrwymo i weithio â gwasanaethau iechyd, cymdeithasol a'r llywodraeth i ysbrydoli'r genhedlaeth newydd i fyw'n iach a bod yn fwy actif.

Y prawf ar gyfer cyfranogaeth hir dymor mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus yw bod oedolion, yn enwedig rhai rhwng 16 - 25 oed, yn dewis cymryd rhan yn y gweithgareddau yma yn eu hamser hamdden. I wireddu hyn, bydd angen sefydlu arferion newydd ymysg y genhedlaeth newydd, a gwneud hynny nawr. Wrth ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc fel blaenoriaeth i'r buddsoddiad, bydd angen sicrhau bod y cynnyrch yn ddifyr, wedi'i ddarparu'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a hynny mewn dull amserol gyda gofal am yr amgylchedd gan arweinwyr ysbrydoledig.

Egwyddor 5: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Anelwn at weithio gyda phrif feysydd y llywodraeth a'r sector gyhoeddus i ddefnyddio sgiliau ein sector i greu cymunedau, ysgolion a gallu'r busnesau i ddatrys heriau, gan ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd drwy'r awyr agored.

Mae'r awyr agored yn werthfawr i bobl leol ac ymwelwyr ac i ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Ond mae angen cymunedau cryf i gynnal hyn.

Mae adeiladu rhwydweithiau cymunedol cadarn yn caniatáu gweithredu mewn modd uniongyrchol a pherthnasol. Mae llawer o glybiau cymunedol a sefydliadau eisoes yn bodoli ac mae angen buddsoddi ynddyn nhw, gan gynnig cyfeiriad a chefnogaeth. Bydd cymunedau cryf yn cefnogi pobl o bob lefel a gallu yn y gymdeithas gan helpu pawb i wireddu eu potensial personol.

Egwyddor 6: Cymru Gynaliadwy

Rydym yn chwilio am gyfleoedd sy'n profi bod newid trawsffurfiol ar gyfer gweithio cynaliadwy o fewn y sector yn bosib.

I gyflawni cyfleoedd cynaliadwy mae angen i'r asiantau allweddol weithio gyda'i gilydd gan groesawu llwybrau datblygu. Mae angen llwybrau datblygu clir gyda phob cam yn arwain at rywbeth arall fyddai, e.e. yn gadael i blentyn sy'n gwneud gweithgaredd am y tro cyntaf gael gwaith yn y pen draw yn y maes hwnnw neu ddatblygu i fod yn berfformiwr elit. Mae angen llwybrau cyfunol ar gyfer addysg, hyfforddiant galwedigaethol, datblygiad sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr, cyfranogaeth ac ymwelwyr/twristiaid. Mae llwybrau datblygu llwyddiannus yn ddibynnol ar gynnyrch diogel o ansawdd, lleoliadau a gofal cwsmer.